

Strategaeth Parcio Caerdydd  
POLISI'AU A SAFONAU GWEITHREDU  
2016



## Cynnwys

Adran 1	Polisiâu Parcio
Adran 2	Gorchmynion Rheoleiddio Traffig
Adran 3	Methodoleg Ymgynghori

## 1.0 POLISIÂU PARCIO

### Cyflwyniad

- 1.1 Parcio i Drigolion yn Unig
- 1.2 Parcio Talu ac Arddangos
- 1.3 Mannau Parcio Pobl Anabl
- 1.4 Mannau Parcio Meddygon
- 1.5 Mannau Parcio Cerbydau Brys
- 1.6 Egwyddor Parcio ar y Stryd
- 1.7 Mannau Llwytho Cerbydau Nwyddau
- 1.8 Rhesi Taccis
- 1.9 Trwyddedau Parcio Arbennig
- 1.10 Trwyddedau Gofalwyr
- 1.11 **Trwyddedau Dros Dro**
- 1.12 Trwyddedau'r Fasnach Foduron
- 1.13 Trwyddedau Ymwelwyr
- 1.14 Parcio Cerbydau Nwyddau Trwm Dros Nos
- 1.15 **Parcio Oddi ar y Stryd**
- 1.16 Cynlluniau Parcio a Theithio
- 1.17 Parcio Bysus
- 1.18 Gorfodi rheoliadau parcio

## Cyflwyniad

Mae parcio'n adnodd cynyddol brin mewn cymdeithas lle mae nifer yr aelwydydd gyda dau neu fwy o gerbydau ar gynnydd<sup>1</sup>. Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Caerdydd i reoli'r adnodd hwn fel rhan o reoli'r galw ar ei rwydwaith ffyrdd. Mae'r Cyngor felly yn derbyn parcio ar y briffordd yn unol â dwy ystyriaeth sylfaenol:

- Na pheryglir diogelwch; ac
- Nad ymyrrir â llif y traffig<sup>2</sup>.

Mae'r Ddeddf Rheoli Traffig<sup>3</sup> yn gosod dyletswydd ar y Cyngor fel awdurdod priffyrdd i sicrhau bod traffig yn llifo'n esmwyth. Er y gall ffyrdd ymddangos fel petaent yn gallu derbyn parcio, gall y Cyngor ystyried nad yw hyn yn hwyluso cwrdd â gofynion y Ddeddf a gall felly weld yr angen i gyfyngu ar barcio.

Y polisiâu a'r meini prawf gweithredol isod sydd yn llywio rheoli gofod parcio o ddydd i ddydd. Dylid darllen y polisiâu hyn ar y cyd â'r dogfennau isod o eiddo'r Cyngor:

- Cynllun Datblygu Lleol,
- Canllawiau Cynllunio Atodol (Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth – Yn Ymgorffori Safonau Parcio a Chanllawiau ar Gynlluniau Teithio),
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol a
- Strategaeth Parcio

Mae amcanion Polisiâu Parcio'r Cyngor yn asio ag amcanion Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cyngor Caerdydd, fel a ganlyn:

- **Amgylchedd** - Caiff parcio ei ddarparu a'i reoli i leihau effeithiau negyddol teithio a pharcio ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol.
- **Economi** – Cyfrannu at economi effeithiol er mwyn cynnal twf economaidd cynaliadwy mewn mannau priodol a hybu bywiogrwydd, dymunoldeb a hyfywedd Canol y Ddinas, canolfannau ardal a lleol
- **Diogelwch** - Caiff parcio ei ddarparu a'i reoli i hybu diogelwch a diogeled pawb sy'n teithio.
- **Hygyrchedd** - Caiff parcio ei ddarparu a'i reoli i'w gwneud yn hawdd i bobl a nwyddau symud o gwmpas, yn enwedig trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Telir sylw arbennig i wella hygyrchedd i bobl sydd â thrafferthion symud.
- **Integreiddio** - Integreiddio parcio gyda phob dull cludiant, rheoli'r rhwydwaith a chynllunio defnydd tir, gan arwain at system drafnidiaeth well, fwy effeithiol a chynaliadwy.

<sup>1</sup> Adran Drafnidiaeth 2013: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/licensing-vehicle-ownership/?lang=en>

<sup>2</sup> Mae llif traffig yn cyfeirio at bob dull cludiant, boed yn foduro, heb foduro neu ar gerdded

<sup>3</sup> 2004

Polisiâu, Meini Prawf Gweithredu a Chanllawiau Cyffredinol

Adran	Esboniad
1.1	<b>Parcio i Drigolion yn Unig (2011)</b>
Polisi	<p>Mae cynlluniau parcio i drigolion yn cael eu darparu mewn strydoedd lle nad oes gan fwyafrif y trigolion ddewis arall ond parcio eu cerbydau ar y stryd a lle mae amodau parcio nodweddiadol trwy gydol yr wythnos yn cyfiawnhau lefel o gymorth. Bwriad cynlluniau safonol parcio i drigolion yn unig yw neilltuo cyfran o'r gofod parcio i drigolion yn unig a'u hymwelwyr ar strydoedd lle mae parcio trwm gan y rhai nad ydynt yn drigolion, hynny yw, siopwyr neu gymudwyr. Nid yw'r cynlluniau hyn yn cael eu defnyddio i symud parcio gan y rhai nad ydynt yn drigolion am resymau esthetaid, lle nad oes pwysau ar barcio fel arall. Bydd y Cyngor yn gosod cynlluniau safonol parcio i drigolion yn ôl y meini prawf gweithredol isod, ond bydd yn ystyried ymgynghori ar ddewisiadau eraill i amddiffyn y parcio lleol sydd ar gael i wella'r cynlluniau hyn lle dengys amgylchiadau lleol bod angen hyn.</p>
Meini Prawf Gweithredu	<p><b><u>Meini Prawf Ceisiadau</u></b> <b>Cynlluniau Newydd</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae'n rhaid i <b>geisiadau</b> am gynlluniau parcio i breswylwyr gynnwys tystiolaeth<sup>4</sup> o gefnogaeth gan o leiaf 50% o'r aelwydydd yn y stryd, neu <b>gan Aelod Lleol</b> ar ran 25% o'r preswylwyr.</li> <li>2. Wedi derbyn cais am gynllun parcio i breswylwyr, cynhelir <b>arolwg lefel parcio</b>.</li> <li>3. Asesir cynlluniau ar sail amodau parcio nodweddiadol trwy gydol yr wythnos waith a chynhelir arolygon ddydd Llun i ddydd Gwener tan 5.00pm. Er mwyn i gynllun fynd rhagddo, bydd yn rhaid i'r lefel parcio cyfartalog a arsylwir dros bedwar ymweliad gyrraedd neu fod yn fwy na 75% o'r gofod parcio ar gael. <b>Caiff ardaloedd eraill eu hystyried hefyd</b>.<sup>5</sup></li> <li>4. Os bodlonir y meini prawf, anfonir llythyrau ymgynghori i bob cartref. Er mwyn i gynllun fynd rhagddo, bydd yn rhaid i 60% o'r preswylwyr, neu 50% o'r preswylwyr yn ogystal â mwyafrif y Cynghorwyr Ward fod o blaid y cynllun.</li> <li>5. Gall cynlluniau parcio newydd i breswylwyr neilltuo naill ai 50% neu (mewn achosion eithriadol) 75% o'r gofod parcio sydd ar gael i breswylwyr a'u hymwelwyr (gyda manau neilltuedig yn gyfartal ar hyd y stryd). <b>Bydd lefel y ddarpariaeth i breswylwyr yn unig yn dibynnu ar ba mor agos yw'r cynllun arfaethedig newydd i BPC canol y ddinas, nodweddion unrhyw gynlluniau eraill i drigolion gerllaw, neu unrhyw ystyriaethau ardal eraill (gweler troednodyn 5) sy'n berthnasol ar adeg yr asesiad.</b></li> </ol> <p><b>Cynlluniau cyfredol</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>6. Gall cyfleusterau presennol parcio i breswylwyr yn unig gael</li> </ol>

<sup>4</sup> E.e. deiseb gan drigolion sy'n cefnogi

<sup>5</sup> E.e. nodweddion ardal neu busnesau a chyfleusterau sydd ynddi

Adran	Esboniad
	<p>eu cynyddu i hyd at 75% o'r gofod parcio sydd ar gael mewn ardaloedd lle mae pwysau parcio arbennig o drwm pan mae'r lefel yn ystod y dydd yn yr wythnos <b>yn y manau sy'n bod eisoes</b> yn cyrraedd 70% neu fwy, neu os yw mwyafrif yr Aelodau Lleol ar gyfer y ward honno'n gwneud cais am gynllun.</p> <p>7. <b>Rhoddir ystyriaeth hefyd i agosrwydd i BPC canol y ddinas ac unrhyw gynlluniau i breswylwyr cyfagos, neu unrhyw ystyriaethau ardal sy'n berthnasol ar adeg yr asesu.</b></p> <p><b>Gwybodaeth arall</b></p> <p>8. Caiff eiddo gyda pharcio oddi ar y stryd eu cynnwys yn y cynllun trwydded lle mae cymysgedd o dai rhes a mathau eraill o dai.</p> <p>9. Ni chrëir Cynlluniau Parcio i Breswylwyr mewn ardaloedd lle mae gan ran fwyaf yr eiddo barcio oddi ar y stryd.</p> <p>10. Dosberthir manau parcio neilltuedig trwy'r stryd fel bod yr holl drigolion heb fod yn bell o fan parcio, ond gall fod tuedd tuag at dai rhes, yn dibynnu ar sawl dreif sydd yn y stryd.</p> <p><b>Canllawiau Gweithredu:</b></p> <p>Trinnir pob achos yn unigol, ac yn amodol ar anghenion penodol a materion yn ymwneud â'r ardal berthnasol.</p> <p>Er enghraifft, gall cynllun datblygiad ddangos angen am ddull gweithredu unigryw. Er enghraifft, mae nifer o ardaloedd preswyl yng Nghaerdydd yn seiliedig ar fodel Radburn. Y prif beth newydd am Radburn oedd gwahanu traffig cerddwyr a cherbydau. Gwnaed hyn trwy symud ymaith oddi wrth batrwm strydoedd traddodiadol a rhoi yn ei le gynllun lle mae tai wedi eu grwpio o gwmpas sawl cul-de-sac bach, a phob un â ffordd fynediad yn dod o'r ffordd fawr. Mae gweddill y tir y tu mewn i'r ardal yn ardal barcio. Bwriad y model hwn yw lleihau gwrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau trwy gyflwyno troedffyrdd ymaith o'r ffyrdd.</p> <p><b>Asesir effaith cynnig yn ôl yr ardal (h.y., nid yn unig yr effaith ar y stryd ei hun ond y sefyllfa mewn strydoedd gerllaw yn ogystal).</b></p> <p>Mewn rhai achosion, efallai y bydd cyflwyno'r cynllun fesul cam, gan adolygu effaith pob cam, yn briodol.</p> <p>Adolygir cynlluniau newydd wedi 9-12 mis ac yn ôl y galw wedi hynny.</p> <p><b>Cynllun Trwydded Trigolion</b></p> <p>11. Bydd hyd at <b>3 trwydded</b> ar gael i bob eiddo y flwyddyn. Neilltuir y trwyddedau hyn i drigolion yn yr eiddo. <b>Neilltuir dwy drwydded i gerbydau sy'n perthyn i drigolion yn y cyfeiriad hwnnw yn unig, a dynodir y drydedd yn drwydded Ymwelydd.</b> Bydd deiliad y drwydded trigolion yn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid cerbyd yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn ymchwilio i unrhyw honiad fod cymudwyr yn</p>

Adran	Esboniad
	<p>camdefnyddio'r drwydded, ac os yn briodol, gall trwyddedau gael eu cymryd oddi ar yr eiddo sy'n tramgwyddo.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>12. Os oes gan eiddo gyfleuster parcio oddi ar y stryd, ni roddir trwydded i breswylwyr. Bydd un drwydded i ymwelwyr ar gael ar gyfer yr eiddo hwn.</li> <li>13. Mae trwyddedau ymwelwyr ar gael ar gyfer ymwelwyr go iawn i'r eiddo. Ni chaniateir dangos trwydded i ymwelwyr ar gar y mae'r preswylwyr yn ei ddefnyddio na chwaith os yw'r gyrrwr/ymwelydd wedi mynd i rywle arall. Gall ymwelwyr ddefnyddio trwydded i ymwelwyr am gyfnod o hyd at bythefnos. Dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod os defnyddir trwydded felly am gyfnod hirach, er mwyn gofyn am ganiatâd.</li> <li>14. Cost y drwydded fydd yr hyn a nodir gan y Cyngor yn ei ddatganiad cyllideb blynyddol.</li> <li>15. Bydd trwyddedau yn drwyddedau penodol i strydoedd neu yn drwyddedau parth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol.</li> <li>16. Bydd angen adnewyddu trwyddedau yn flynyddol ac ni fydd modd cael trwydded newydd yn lle un coll fel rheol. Dan amgylchiadau eithriadol megis lladrad, ac ar yr amod fod tystiolaeth yn cael ei darparu ar ffurf adroddiad digwyddiad gan yr Heddlu, mae modd cael trwydded newydd. Pan geir cerbyd newydd yn ystod y flwyddyn, rhoddir trwydded newydd ar yr amod fod yr hen un yn cael ei ddychwelyd. Mae'n bosibl y bydd cyflwyno e-drwyddedau'n newid y trefniadau hyn. Cyhoeddir newidiadau'n glir ar wefan y Cyngor a rhoddir gwybod i ddeiliaid trwydded ar adeg briodol.</li> <li>17. Ni fydd gan drigolion datblygiadau newydd (yn cynnwys eiddo a'i addasir<sup>6</sup>) a thrigolion neuaddau preswyl presennol hawl i drwyddedau trigolion i barcio ar y stryd, ar y rhagdyb fod parcio eisoes wedi ei ganiatáu, neu heb ei ganiatáu, yn unol â chanllawiau cynllunio'r Cyngor.</li> <li>18. Amseroedd gweithredu'r cynllun trwyddedau fydd 8.00am i 10.00pm bob dydd.</li> <li>19. O wneud cais, gellir darparu un drwydded gofalwr am ddim lle bo'r Cyngor yn fodlon bod angen cymorth gofalwr proffesiynol llawn-amser (24awr) ar aelwyd. Efallai y bydd angen dogfennau cefnogi ychwanegol dan yr amgylchiadau hyn.</li> <li>20. Caiff trigolion eiddo ar gornel ddewis neilltuo eu trwyddedau i ffordd eu cyfeiriad post neu'r ffordd gyfagos os mai yno y mae prif fynedfa'r eiddo, ar yr amod fod y cynllun ar waith yn y stryd honno.</li> <li>21. Darperir Trwyddedau Ymwelwyr fesul un i bob aelwyd. Gweler adran 1.9 (iii) Trwyddedau Ymwelwyr.</li> </ol>

<sup>6</sup> e.e. pan mae eiddo wedi ei rannu yn llety ar wahân, neu y mae newid defnydd wedi digwydd

Adran	Esboniad
<b>1.2</b>	<b>Talu-ac-Arddangos</b>
Polisi	<p>Mae'r Cyngor yn cefnogi egwyddor parcio talu-ac-arddangos. Mae'r system hon yn sicrhau bod modurwyr yn cadw at y cyfyngiadau amser sydd mewn grym. Gall y math hwn o barcio gael ei gyflwyno os ystyrir bod budd i'w gael o'r orfodaeth well a'r trosiant llefydd fyddai'n deillio i'r ardal o gael cynllun felly. Gall tariffau parcio gael eu hamrywio o bryd i'w gilydd, a gall nifer y llefydd parcio gael eu newid, i gefnogi polisiâu trafndiaeth neu ddatblygu lleol y Cyngor.</p>
<b>1.3</b>	<b>Mannau Parcio Pobl Anabl</b>
Polisi	<p>Bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i ddarparu manau parcio pobl anabl mewn manau sy'n cael eu defnyddio yn gyffredin megis canolfannau siopa lleol. Bydd Mannau Parcio Pobl Anabl hefyd yn cael eu darparu y tu allan i gartrefi unigol ar yr amod y bodlonir y meini prawf isod:</p> <p>Mae'n rhaid i ymgeiswyr fodloni <b>pob un</b> o feini prawf 1 i 4 :</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Meddu ar Fathodyn Glas (Ewropeaidd).</li> <li>2. Bod ag anabledd parhaol.</li> <li>3. Methu mynd at gyfleuster parcio oddi ar y stryd, e.e., dreif neu lain galed (yn cynnwys garej).</li> <li>4. Byw lle nad oes man parcio oddi ar y stryd ar gael o fewn 25 metr i'r cartref ar adeg arolygu'r safle.</li> </ol> <p>Yn ychwanegol at yr uchod, rhaid i ymgeiswyr fodloni un o'r meini prawf canlynol :</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Bod dan 65 oed ac yn derbyn cydran symudedd uwch y Taliad Annibyniaeth Personol.</li> <li>b. Bod yn 65 oed neu yn hŷn.</li> <li>c. Bod yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel.</li> <li>d. Dod dan amgylchiadau eraill y gall y Cyngor Sir ystyried eu bod yn haeddu ystyriaeth arbennig.</li> </ol> <p>Y tu mewn i faen prawf d, rhoddir ystyriaeth ffafriol i bobl sy'n bodloni'r meini prawf canlynol :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Plant neu oedolion sydd ag anawsterau ymddygiad neu ddysgu nad oes modd eu gadael ar eu pennau eu hunain yn ddiogel wrth drosglwyddo rhwng y cartref a'r car.</li> <li>• Pobl y mae arnynt angen cymorth mecanyddol i symud, e.e., caliperau, prosthetigau, cadair olwyn, cyfarpar codi arbennig, neu bobl sy'n cludo cyflenwad ocsigen.</li> </ul> <p><b>Caiff ceisiadau eu hystyried yn nhrefn amser.</b></p> <p>I gael manau parcio pobl anabl, mae angen gwneud Gorchymyn</p>



Adran	Esboniad
	<p>Rheoleiddio Traffig sy'n golygu trefn ymgynghori gyfreithiol. Bydd man a ddarperir y tu allan i'r cartref yn aros yn <b>gyfleuster y gellir ei ddefnyddio gan unrhyw ddeiliad bathodyn anabl</b> yn unol â rheolau gweithredu arferol y cynllun bathodyn pobl anabl.</p> <p>Byddai defnyddwyr cerbydau a ddarperir dan y cynllun "symudedd" yn awtomatig yn bodloni maen prawf a, oherwydd bod derbyn cydran y gyfradd uwch yn un o ofynion y cynllun.</p> <p>Fodd bynnag, efallai y daw achosion arbennig i'r amlwg yn y dyfodol nad ydynt yn dod dan yr uchod. Byddai'n briodol ystyried yr achosion hyn trwy ymgynghori â staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Nid oes angen bellach bod yn yrrwr car, ond erys y gofyn i gadw car yr ymgeisydd yn yr annedd dan sylw.</p> <p><b>Ni ddarperir llefydd lle nad oes gan yr ymgeisydd gar ond lle mae'n gofyn am un i ymwelwyr i ddefnyddio.</b></p>
<p><b>Meini Prawf Gweithredu</b></p>	<p>Os hysbysir y Cyngor, neu os derbynnir cais penodol, tynnir man pario anabl ymaith pan nad oes ei angen bellach, er enghraifft os yw'r preswylir anabl yn symud i gyfeiriad newydd, neu os yw'n marw. Os derbynnir gwrthwynebiad i symud cyfleuster o'r fath am un o'r rhesymau isod</p> <p>a) y byddai'r gwrthwynebydd yn gymwys i dderbyn man o'r fath ei hun ac y byddai modd defnyddio lleoliad y man parcio presennol</p> <p>b) yr ystyrir y gallai cadw'r man parcio fod o les i aelodau eraill y gymuned, at ddefnydd deiliaid eraill bathodynau glas.</p> <p>Gall y man parcio gael ei gadw ar y safle gan gadw golwg ar y defnydd y gwneir ohono er mwyn sicrhau ei fod o fudd i'r gymuned gyfan.</p> <p>Lle derbynnir cais am fan parcio anabl, os yw'r meini prawf wedi eu cwrdd, bydd y man parcio yn cael ei roi'r tu allan i eiddo'r preswlydd, neu mewn lle addas gerllaw. Os oes cynllun parcio i breswylwyr yn y stryd, gosodir man yn yr ardal parcio i breswylwyr a bydd yn rhaid arddangos bathodyn glas yno. Ym Mharth Parcio'r Canol yng nghanol y ddinas, bydd yn rhaid dangos trwydded barcio i breswylwyr ddilys yn ogystal â bathodyn glas. Ni fydd manau parcio yn cael eu gosod y tu allan i eiddo preswyl arall.</p>
<p><b>1.4</b></p>	<p><b>Mannau Parcio Meddygon</b></p>
<p><b>Polisi</b></p>	<p>Dan amgylchiadau eithriadol, darperir llefydd parcio i Feddygon, o wneud cais, a lle'r atebir y meini prawf isod:</p> <p>a) lle mae'r meddyg yn debyg o gael ei g/alw i argyfyngau draw o'r feddygfa;</p> <p>b) nad oes parcio oddi ar y stryd ar gael ym meddygfa'r ymgeisydd;</p> <p>c) fod y parcio ar y stryd yn gyfryw fel nad oes cyfleuster parcio arall ar gael yn rheolaidd o fewn pellter rhesymol i feddygfa'r ymgeisydd.</p>

Adran	Esboniad
Maen Prawf Gweithredu	Pan ganiateir cais, darperir lle parcio i feddyg yn union y tu allan i'r feddygfa, yn unol â gofynion y Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig, a rhoddir cynifer o drwyddedau ag sydd angen i'r feddygfa.
<b>1.5</b>	<b>Mannau Parcio Cerbydau Brys</b>
Polisi	Darperir y rhain o wneud cais lle mae'r amodau traffig yng nghyffiniau canolfan y cerbyd brys yn gyfryw fel ag y byddai darparu man o'r fath yn gwella'n sylweddol berfformiad gwaith y cerbyd brys.
Meini Prawf Gweithredu	Darperir y manau hyn mewn achosion a gymeradwyir, boed parcio oddi ar y stryd ar gael neu beidio. Darperir manau parcio i gerbydau brys yn unol â gofynion y Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig.
<b>1.6</b>	<b>Parcio ar y Stryd</b>
Polisi	Mae'r Cyngor yn mabwysiadu'r polisi o ddarparu parcio ar y stryd o fewn gofynion sicrhau diogelwch ar y briffordd a gofalu bod y traffig yn llifo mor effeithiol ag sydd modd (e.e. cefnogi llwybrau trafndiaeth strategol /coridorau cludiant cyhoeddus etc.). Lle cyfyd y cyfle, edrychir eto ar gyfyngiadau aros sy'n bod eisoes, a'u cadw neu eu dileu fel sy'n briodol. Seilir newidiadau ar newid mewn amodau neu lif traffig ers y dyddiad cyflwyno gwreiddiol.
Canllawiau Gweithredu	Darperir manau parcio ar y stryd yn unol â'r Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig mewn manau priodol lle gellir parcio ar y stryd yn ddiogel trwy gydol y diwrnod gwaith a lle'r ystyrir y byddai parcio tymor byr yn llesol i anghenion yr ardal.  Dywed Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2004 beth yw isafswm dimensiynau unrhyw fan parcio ar y briffordd. Yn wyneb hyn, os bydd ffordd yn gulach na 5.5 metr, ni fyddai man parcio yn ystyriaeth gan na fyddai'r lôn gerbydau yn ddigon llydan i gerbydau eraill basio. Fodd bynnag, lle bo modd, gellir nodi lleoliadau eraill posib.
<b>1.7</b>	<b>Mannau Llwytho Cerbydau Nwyddau</b>
Polisi	Darperir manau llwytho yn unol â'r Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig mewn llefydd priodol lle gellir gosod manau llwytho yn ddiogel trwy gydol y diwrnod gwaith a lle'r ystyrir y byddai man llwytho yn llesol i weithrediad y gymuned fusnes ond nid i fusnesau unigol.
<b>1.8</b>	<b>Rhesi Tacsis</b>
Polisi	Darperir Rhesi Tacsis yn unol â'r Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig lle:  a) mae galw gan y cyhoedd yn cynhyrchu'r angen rheolaidd ac aml i dacsis fod yn bresennol a lle b) y golygai absenoldeb rhes dacsis ddynodedig y byddai parcio cyffredinol gan gerbydau eraill yn ddigon trwm i atal tacsis rhag ateb yr angen hwn yn ddiogel.  Mae darparu rhesi tacsis yn arbennig o berthnasol i ganol y

Adran	Esboniad
	<p>ddinas a Bae Caerdydd. Darperir cymaint o le i resi ag sydd modd, yn unol ag argaeledd gofod parcio diogel a galwadau categorïau erial o ddefnyddwyr.</p> <p>Gellir ystyried gosod rhesi taccis hefyd ar y cyd â'r ddarpariaeth a wneir i gerbydau nwyddau fel adnodd sy'n cael ei rannu, ac yn amodol ar gyfnodau gweithredu gwahanol.</p>
<b>1.9</b>	<b>Trwyddedau Parcio Arbennig</b>
	<p>Yn ychwanegol at y trwyddedau "normal" sydd ar gael dan y cynlluniau parcio i drigolion a meddygon, bydd y trwyddedau arbennig isod ar gael yn unol â'r meini prawf a nodir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Trwyddedau Gofalwyr</li> <li>b) Trwyddedau'r Fasnach Foduro</li> </ul>
<b>1.9 (i)</b>	<b>Trwyddedau Gofalwyr</b>
<b>Polisi</b>	<p>Diorseddwyd Trwyddedau Gofalwyr gan y drwydded ymwelydd a grybwyllwyd ym mharagraff 1.1, ond dan amgylchiadau arbennig, gall trwyddedau gofalwyr hefyd gael eu caniatáu. Enghraifft o achos arbennig fyddai lle bo ar breswilydd angen gofal drwy'r dydd gan ofalwr proffesiynol, y byddai ei d/defnydd o'r drwydded ymwelydd yn atal perthnasau rhag ymweld. Mewn achosion o'r fath, priodol fyddai rhoi trwydded gofalwr yn ychwanegol at y drwydded ymwelydd arferol.</p> <p>Gall Trwyddedau Ymwelwyr fod ar gael i drigolion sy'n byw mewn strydoedd sydd â chyfleusterau parcio i drigolion ac</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) nad ydynt yn yrwyr ceir</li> <li>b) sydd angen gofal llawn-amser 24 awr gan ofalwr proffesiynol er mwyn iddynt allu parhau i fyw yn eu cartrefi. (gweler 1.1[13])</li> </ul> <p>Lle bod angen gofal nad yw'n gyson â b) yna dylid dibynnu ar y cynllun trwydded ymwelwyr (gweler 1.1).</p>
<b>Meini Prawf Gweithredu</b>	<p>Yn yr achosion hyn, rhoddir un drwydded i'r preswilydd. Bydd gan y drwydded y gair "GOFALWR" yn lle rif cofrestru'r cerbyd.</p>
<b>1.9 (ii)</b>	<b>Y Fasnach Foduro</b>
<b>Polisi</b>	<p>Bydd trwyddedau ar gael i drigolion a fyddai fel arfer â hawl i drwydded parcio preswilywr i'r stryd lle maent yn byw, ond a all brofi, yn rhinwedd eu gwaith, eu bod yn gyrru amrywiaeth o gerbydau ac na allant warantu mai'r un cerbyd y byddant yn ei ddefnyddio o ddydd i ddydd. Yn yr achosion hyn, rhoddir un drwydded i'r ymgeisydd, gyda'r geiriau "Y FASNACH FODURO" yn lle'r rhif cofrestru. Er nad yw'n disgrifio'r sefyllfa i'r dim, dyma'r hyn a ddefnyddir yn y Gorchmynion rheoleiddio traffig sy'n rheoli gweithredu cynlluniau parcio trigolion yn unig.</p>

Adran	Esboniad
Meini Prawf Gweithredu	Rhaid cefnogi ceisiadau gan ddogfennau sy'n profi cyflogaeth, neu bolisi yswiriant dilys.
<b>1.9 (iii)</b>	<b>Trwyddedau Ymwelwyr (gweler hefyd Parcio i Drigolion yn Unig – Adran 1.1)</b>
Polisi	Mae un drwydded ymwelydd yr aelwyd i wir ymwelwyr yn awr ar gael mewn strydoedd sydd â chyfleusterau parcio i drigolion yn unig.
Meini Prawf Gweithredu	Mae'r awdurdod i roi'r trwyddedau hyn wedi ei gynnwys yn y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig perthnasol sy'n diffinio'r manau parcio ar y strydoedd dan sylw. Y bwriad yw i'r trwyddedau hyn gael eu cadw ar yr aelwyd a gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw ymwelydd tra pery'r ymweliad. Nid ydynt wedi eu bwriadu i gael eu defnyddio'n rheolaidd gan bobl a all fod yn cymudo ac yn gwneud defnydd o'r cyfleusterau parcio a gynigir ar y stryd honno, ac mewn achosion felly, gall y drwydded gael ei chymryd oddi ar y deiliad dan sylw.
<b>1.10</b>	<b>Parcio cerbydau nwyddau trwm dros nos</b>
Polisi	Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y bydd y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i wahardd parcio cerbydau nwyddau trwm dros nos.
Meini Prawf Gweithredu	Yn unol â'r amodau a nodir yn Nhrwydded y Gweithredwr, rhaid cadw cerbydau nwyddau trwm dros nos mewn manau oddi ar y briffordd gyhoeddus. Lle'r anwybyddir yr amod hwn, a bod cwynion yn cael eu derbyn fod cerbydau nwyddau trwm yn cael eu parcio neu eu rhedeg dros nos mewn ardaloedd preswyl, gall adroddiad gael ei wneud am y mater i'r Awdurdod Trwyddedu.
<b>1.11</b>	<b>Parcio oddi ar y stryd</b>
Polisi	Bydd y Cyngor yn parhau i redeg ei gyflenwad presennol o feysydd parcio oddi ar y stryd, a lle codir ffi, bydd yn parhau i godi ffi yn unol â meysydd parcio preifat eraill.  Lle bo angen, gellir sefydlu systemau i reoli hyd yr arhosiad, er mwyn cynnwys llai o gymudwyr a thrwy hynny gynyddu trosiant y llefydd parcio i siopwyr.
Canllawiau Cyffredinol	Lle cyfyd y cyfle, a lle bo hyn yn gweddu â'r cynllun strategol ar gyfer dosbarthu meysydd parcio, bydd y Cyngor yn agor ac yn rhedeg meysydd parcio newydd oddi ar y stryd.
<b>1.12</b>	<b>Cynlluniau Parcio a Theithio</b>
Polisi	Bydd y Cyngor yn parhau i hybu a rhedeg cynlluniau parcio a theithio yn y Sir ar y cyd â chwmnïau sydd â diddordeb, yn unol ag amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Mae'r Cyngor am ddatblygu cylch o safleoedd parcio-a-theithio o gwmpas ymylon y ddinas fel bod modd cyrraedd canol y ddinas yn rhwydd ac yn gyflym, ac er mwyn lleihau tagfeydd a llygredd. Cefnogir hyn gyda lonydd bysus unswydd lle bo modd.

Adran	Esboniad
Canllawiau Cyffredinol	Mae'n arfer gan y Cyngor redeg gwasanaethau Parcio a Theithio.
<b>1.13</b>	<b>Parcio Bysus</b>
Polisi	Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cyfleusterau parcio bysus ar y stryd ac oddi ar y stryd mewn mannau priodol o gwmpas y ddinas, er mwyn cefnogi diwydiannau economaidd a thwristaidd yn y ddinas.
Canllawiau Cyffredinol	<p>Mae Dinas Caerdydd yn denu llawer o ymwelwyr oherwydd ei threftadaeth wych, ei llu o atyniadau, a'i rhaglenni chwaraeon a diwylliannol o bwys. Mae maes parcio i fsysus oddi ar y stryd ar gael yn agos at y canol, wedi ei ategu gan nifer o gyfleusterau parcio arhosiad byr ac arhosiad hir tua'r gogledd o ganol y ddinas. Ar achlysuron arbennig, mae'r ffyrdd yn y Ganolfan Ddinesig yn aml wedi eu cau i draffig, a bydd lle i barcio bysus ar y stryd.</p> <p>Darparwyd cyfleusterau parcio newydd i fsysus ar y stryd yn ardal Bae Caerdydd, a rhoddir ystyriaeth i gyfleusterau parcio newydd i fsysus.</p> <p>Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi'r cyfleusterau hyn a byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chwmnïau bysus a'r cyrff sy'n eu trefnu er mwyn hybu'r cyfleusterau.</p>
<b>1.14</b>	<b>Gorfodi Rheoliadau Parcio</b>
Polisi	Mae gan Gyngor Caerdydd bwerau dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i gymryd camau gorfodi sifil yn erbyn y sawl sy'n torri rheoliadau parcio.
Canllawiau Cyffredinol	Mae Deddf Rheoli Traffig 2004 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ofalu bod rhwydwaith y ffyrdd yn cael ei redeg yn effeithiol. Tan yn ddiweddar, bu gorfodi'r rheoliadau hynny yn gyfrifoldeb yr Heddlu a'u Wardeniaid Traffig, oherwydd bod torri'r rheoliadau yn droseddau, ond pan gymerodd y Cyngor bwerau gorfodi, daethant yn droseddau sifil. Mae gan y Cyngor bellach reolaeth uniongyrchol dros y swyddogion gorfodaeth sifil ac yn eu defnyddio yn ôl y galw o gwmpas rhwydwaith y priffyrdd. Mae'r swyddogion hyn yn gyfrifol am orfodi cyfyngiadau parcio a rhai Troseddau Traffig Symudol. Mae eu dyletswyddau yn debyg o gynyddu os cyflwynir mwy o bwerau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Traffig a Strategaeth Trafnidiaeth a Chynllun Trafnidiaeth Lleol y Cyngor, sydd yn bennaf yn cefnogi cludiant cyhoeddus a dulliau iachach o deithio (cerdded a beicio).
<b>1.15</b>	<b>Defnyddio Incwm a ddaw gan Barcio a Geithgareddau Gorfodi</b>
Polisi	Bydd Cyngor Caerdydd yn defnyddio'r incwm a ddaw gan Barcio a Gweithgareddau Gorfodi yn unol â gofynion Adran 55 Deddf Traffig y Ffyrdd.
Canllaw Cyffredinol	Caiff y Cyngor wario'r incwm a ddaw gan barcio. Ceir diffiniad o hyn yn Adran 55 Deddf Traffig y Ffyrdd.

Adran	Esboniad
	Pennir yr incwm a ddaw gan barcio i'w ail-fuddsoddi mewn gwaith gwella rhwydwaith a mentrau eraill sy'n gysylltiedig â pharcio. Mae hyn yn cynnwys adnewyddu'r seilwaith barcio gyfredol a chynnal yr amgylchedd.

## 2.0 GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG

- 2.1 Cyfyngiadau Aros
- 2.2 Cyfyngiadau Llwytho
- 2.3 Gorchmynion Gwarchod Arosfannau Bysus
- 2.4 Gorchmynion Mynediad yn Unig
- 2.5 Cyfyngiadau Pwysau a Lled
- 2.6 Gwarchod Mynedfeydd Preifat
- 2.7 Gwahardd Symudiadau Troi
- 2.8 Stryd Unffordd
- 2.9 Cau Ffyrdd Dros Dro
- 2.10 Masnachwyr Stryd
- 2.11 Cyfyngiadau Cyflymder
- 2.12 Gorchmynion Traffig Arbrofol
- 2.13 Cau Ffyrdd
- 2.14 Dileu Priffyrdd
- 2.15 Gorchmynion Gwarchod Cyffordd
- 2.16 Parcio ar Ymylon Gwyrdd
- 2.17 Parcio ar Droedffyrdd
- 2.18 Gorfodi Rheoliadau Parcio
- 2.19 Gorchmynion Amrywiol Eraill nas rhestrir uchod

## Cyflwyniad

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) yw'r ddogfen gyfreithiol sydd ei hangen i gefnogi amrywiaeth o fesurau, sydd yn llywodraethu neu yn cyfyngu ar y defnydd o ffyrdd cyhoeddus. Fe'u gwneir dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig y Ffyrdd (1984) a Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

Dywed Deddf 1984:

(1) [Y gall gorchymyn rheoleiddio traffig wneud] unrhyw ddarpariaeth yn gwahardd, cyfyngu neu yn rheoleiddio'r defnydd o ffordd, neu unrhyw ran o led ffordd, gan draffig cerbydau, neu gan draffig cerbydau o unrhyw ddsbarth a nodir yn y gorchymyn,-

(a) naill ai yn gyffredinol neu yn amodol ar y cyfryw eithriadau a nodir yn y gorchymyn neu a bennir mewn dull y darperir ar ei gyfer ganddo, ac

(b) yn amodol ar y cyfryw eithriadau a ellir eu nodi neu eu pennu felly, naill ai ar unrhyw adeg neu ar adegau, ar ddyddiau neu yn ystod cyfnodau a nodir felly.

(2) Mae'r ddarpariaeth y gellir ei wneud gan orchymyn rheoleiddio traffig] yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth—

(a) sy'n mynnu bod traffig cerbydau, neu draffig cerbydau o unrhyw ddsbarth a nodir yn y gorchymyn, yn symud i gyfeiriad a nodir neu ei wahardd rhag mynd i'r cyfeiriad hwnnw;

(b) sy'n nodi'r rhan o'r lôn gerbydau i'w defnyddio gan draffig o'r fath yn mynd i gyfeiriad a nodir;

(c) yn gwahardd neu yn cyfyngu cerbydau rhag aros neu rhag llwytho a dadlwytho;

(d) yn gwahardd traffig drwodd rhag defnyddio ffyrdd; neu

(e) yn gwahardd neu yn cyfyngu goddiweddyd.

(3) Mae'r ddarpariaeth y gellir ei wneud gan orchymyn rheoleiddio traffig hefyd yn cynnwys darpariaeth yn gwahardd, cyfyngu neu yn rheoleiddio'r defnydd o ffordd neu unrhyw ran o led ffordd, gan gerddwyr, neu unrhyw ddsbarth penodol o gerddwyr—

(a) naill ai yn gyffredinol neu yn amodol ar eithriadau a nodir yn y gorchymyn, a

(b) naill ai ar bob amser neu ar adegau, ar ddyddiau neu yn ystod cyfnodau a nodwyd felly.

(4) Gall awdurdod traffig lleol gynnwys] mewn gorchymyn rheoleiddio traffig unrhyw ddarpariaeth o'r fath—

(a) sydd yn nodi llwybrau trwodd i gerbydau masnachol trwm, neu

(b) yn gwahardd neu yn cyfyngu'r defnydd o gerbydau masnachol trwm (ac eithrio mewn unrhyw achosion, os oes rhai, a nodir yn y gorchymyn) mewn parthau neu ar ffyrdd a nodir yn y cyfryw fodd,

sydd yn eu barn hwy yn hwylus er mwyn cadw neu wella mwynderau'r ardal neu rai rhannau neu rannau o'u hardal.

(5) Ni ddylid dehongli dim yn isadran (4) uchod fel ei fod yn cyfyngu ar gwmpas unrhyw bŵer na dyletswydd i reoli cerbydau a roddwyd neu a osodwyd ar unrhyw awdurdod lleol na'r Ysgrifennydd Gwladol ac eithrio yn rhinwedd yr isadran honno.

Mae cyfraith y DU yn mynnu bod GRhT wedi eu gosod i alluogi'r heddlu a/neu y cyngor i orfodi'r cyfyngiadau hyn.

- Llinellau melyn dwbl
- Strydoedd unffordd
- Gwahardd troi
- Lonydd bysus
- Cyfyngiadau parcio.

Mae gan gynghorau sir, cynghorau dosbarth metropolitaidd a bwrdeistrefi Llundain oll bwerau i wneud GRhT ar y ffyrdd y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau tebyg yng nghyswllt cefnffyrdd.

Mae tri chategori o GRhT:

- GRhT parhaol, sy'n aros mewn grym hyd nes y cânt eu disodli neu eu dileu.
- Gorchmynion arbrofol, a all bara hyd at 18 mis, gydag estyniadau i'w cael dan rai amgylchiadau.
- Gorchmynion dros dro (ar gyfer gwaith ffordd, neu osgoi perygl i'r cyhoedd, neu i glirio sbwriel a glanhau) a all bara am: hyd at chwe mis ar gyfer llwybrau troed, llwybrau march, llwybrau beicio a chilffyrdd sydd yn agored i bob traffig; a hyd at 18 mis ar ffyrdd eraill, gydag estyniadau i'w cael dan rai amgylchiadau.

Gall GRhT gael ei weithredu fel rhan o Ddeddf Rheoleiddio Traffig y Ffyrdd (1984) a Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

Gall GRhT barhau ar waith am gyfnod amhendant. Lle gall fod ar y Cyngor angen newid neu ddileu GRhT rhaid i hyn ddilyn yr un weithdrefn ag a ddefnyddiwyd i greu'r GRhT.

Mae hyn yn golygu:

- Ymgynghori â'r gwasanaethau brys a chyrrff cyhoeddus eraill.
- Gellir ymgynghori â grwpiau diddordeb lleol megis trigolion a masnachwyr lle bo hyn yn briodol.
- Hysbysebu'r GRhT trwy osod hysbysiad yn y wasg leol a gellir arddangos hysbysiadau yn y ffyrdd yr effeithir arnynt.



- Ystyried Gwrthwynebiadau trwy weithdrefn briodol y cyngor cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r mater.
- Gall y GRhT wedyn gael ei wneud (selio) yn ffurfiol a'i gyflwyno os yw hyn yn briodol

## Polisiâu a Meini Prawf Gweithredu Cyngor Caerdydd

Eitem	Manylion
<b>2.1</b>	<b>Cyfyngiadau Aros</b>
Polisi	Darperir cyfyngiadau aros lle bo angen i sicrhau bod y traffig yn llifo'n ddiraferth neu lle bo'n fater o ddiogelwch. Bydd natur y cyfyngiadau aros yn briodol i'r amodau traffig a'r lleoliad.
<b>Meini Prawf Gweithredu</b>	Mae Cyngor Caerdydd yn hybu polisi o ddarparu parcio ar y stryd yn amodol ar ofnion llif traffig effeithlon a diogelwch. Golyga hyn mai'r cyfyngiadau aros fydd y lleiaf fydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaeth a fwiadwyd. Edrychir eto ar gyfyngiadau aros, a'u cadw os yn briodol neu eu newid os teimlir bod newid yn yr amodau neu lif y traffig yn cyfiawnhau hyn.
<b>2.2</b>	<b>Cyfyngiadau Llwytho</b>
Polisi	Darperir cyfyngiadau llwytho er mwyn cyfyngu parcio cerbydau cludo a Deiliaid Bathodyn Glas lle byddai eu presenoldeb yn effeithio'n andwyol ar lif traffig effeithlon neu a fyddai ag oblygiadau anffafriol i ddiogelwch.
<b>Meini Prawf Gweithredu</b>	Yr ydym yn cydnabod bod yn rhaid cyflenwi gwasanaethau i eiddo, a byddwn yn caniatáu am hyn, cyhyd ag sy'n ymarferol. Fodd bynnag, mae lleoliad yr eiddo yn ystyriaeth hollbwysig. Rhaid cydnabod nad yw'n wastad yn bosib caniatáu llwytho yn union y tu allan i rai mathau o eiddo, megis gerllaw cyffyrdd sy'n cael eu rheoli gan signalau. O ran mathau eraill o eiddo, gellir caniatáu llwytho yn unig y tu allan i'r cyfnodau pan fo llif y traffig ar ei drymaf. Bydd y cyfyngiadau llwytho / dadllwytho yn adlewyrchu'r ystyriaethau hynny.
<b>2.3</b>	<b>Gorchmynion Gwarchod Arosfannau Bysus</b>
Polisi	Mae Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2004 yn cynnwys marc "blwch" penodedig ar gyfer arosfan bws, y mae deddfwriaeth genedlaethol yn ei orfodi yn awtomatig. O ganlyniad, nid oes angen GRhT lleol wrth weithredu'r llinellau a'r arwyddion angenrheidiol wrth arosfannau bysus.
<b>2.4</b>	<b>Gorchmynion Mynediad yn Unig</b>
Polisi	Nid yw Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru yn cefnogi cyflwyno'r Gorchmynion hyn. Fel cydnabyddiaeth o hyn, ni fydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau am y Gorchmynion hyn.
<b>2.5</b>	<b>Cyfyngiadau Pwysau a Lled</b>
Polisi	Cyflwynir cyfyngiadau pwysau lle mae Cerbydau Nwyddau Trwm yn defnyddio ffyrdd oddi ar y Rhwydwaith strategol yn rheolaidd, neu lle datgelodd asesiad o strwythur y briffordd sy'n cynnal ffordd bod yno wendid. Caiff y cyfyngiad pwysau ei deilwrio i asesiad o gryfder y strwythur. Darperir cyfyngiadau pwysau hefyd lle teimlir nad yw strydoedd preswyl neu strydoedd eraill yn addas i gerbydau masnachol deithio ar eu hyd. Yn yr achosion hyn, gosodir y cyfyngiadau pwysau fel rheol ar 7.5 tunnell. Mewn rhai achosion, caniateir eithriadau i gerbydau y mae'n rhaid iddynt gael mynediad.
	Darperir cyfyngiadau lle er mwyn gwarchod strwythurau cul dros briffordd, neu lle nad yw'r cliriad rhwng y ffasadau neu droedffyrdd gyferbyn yn cyrraedd y safon.

Eitem	Manylion
<b>2.6</b>	<b>Gwarchod Mynedfeydd Preifat</b>
<b>Polisi</b>	<p>Ni ddarperir cyfyngiadau aros i warchod mynedfeydd i dai preifat.</p> <p>Fodd bynnag, fe all achosion godi lle byddai'n fanteisiol gwarchod y mynedfeydd i eiddo masnachol, fel y gall CNT/cerbydau masnachol symud i mewn ac allan ohonynt yn ddirwystr. Gallai hyn fod yn ddoeth o ran diogelwch y ffyrdd a rheoli traffig, yr olaf hwn trwy achosi llai o oedi i draffig wrth i'r cerbydau hyn fynd yn sownd dan amgylchiadau o'r fath. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd gofyn i'r perchennog(ion) dalu cost darparu'r GRhT ynghyd â'r gwaith ar y safle.</p>
<b>Meini Prawf Gweithredu</b>	<p>Ni fydd y Cyngor yn darparu cyfyngiadau parcio (fel llinellau melyn sengl neu ddwbl) mewn mynedfa breifat, er y gellir ystyried marc "Bar-H" dan rai amgylchiadau.</p> <p>Mynedfa breifat yw un nas mabwysiadwyd ac nas codwyd at safonau priffordd y gellir eu mabwysiadu. Byddai cynllun a chreu unrhyw fynedfa yn ystyriaeth o ran penderfynu a fyddai modd cyfiawnhau mesurau.</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried darparu cyfyngiadau parcio trwy gyfrwng llinellau melyn dwbl ar gyffordd ffordd breifat â'r briffordd gyhoeddus. Gwneir hyn yn unig dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ffordd breifat wedi ei gwneud i safonau fel y gellir ei mabwysiadu ac fe'i defnyddir gan y cyhoedd</li> <li>• Mae'r tiffeddiannwr neu'r tiffeddiannwr yn cytuno i dalu cost lawn y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) a'i weithredu</li> <li>• Daeth swyddogion y Cyngor i'r casgliad y bydd darparu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig o les i weithrediad y rhwydwaith briffyrdd.</li> </ul>
<b>2.7</b>	<b>Gwahardd Symudiadau Troi</b>
<b>Polisi</b>	<p>Darperir y rhain ar gyffyrdd nad ydynt yn cael eu rheoli a lle gallai'r symud beryglu diogelwch. Ar gyffyrdd sydd yn cael eu rheoli, gellir darparu cyfyngiadau troi am yr un rheswm, nei i wneud i'r gyffordd weithredu'n fwy effeithiol. Gellir eu darparu hefyd lle mae eu hangen i allu ymgorffori cyfleusterau i gerddwyr i reolaeth y gyffordd, i redeg ar y cyd â symudiadau cerbydau.</p>
<b>2.8</b>	<b>Strydoedd Unffordd</b>
<b>Polisi</b>	<p>Gellir creu strydoedd unffordd lle mae'r stryd yn rhy gul i gludo traffig deuffordd yn ddiogel, neu lle maent yn ffurfio rhan o system fwy o reoli traffig neu dawelu traffig. Mae modd creu "plygiau" unffordd, sef darnau byrion unffordd mewn stryd, i gyfyngu mynediad i stryd o ryw gyfeiriad penodol, neu i symleiddio cyffordd gymhleth sydd heb neu wedi ei rheoli, neu am resymau eraill yn ymwneud a rheoli traffig.</p>
<b>2.9</b>	<b>Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro</b>
<b>Polisi</b>	<p>Cyflwynir Gorchymynion Traffig Dros Dro lle tybir bod hyn yn angenrheidiol i gyfyngu symudiadau traffig neu gerddwyr fel bod modd gwneud gwaith yn ddiogel ar y briffordd, neu gerllaw iddi.</p>
<b>Canllawiau</b>	<p>Rhaid gwneud y cyswllt cyntaf am waith dros dro ar y briffordd i'r</p>

Eitem	Manylion
<b>Gweithredu</b>	<p>Rheolwr Gwaith Stryd / Rheolwr y Rhwydwaith. Dylai'r contractwr wneud pob ymdrech i wneud y gwaith a pharhau i gadw llif y traffig ar hyd y ffordd. Bydd y rhain yn unol â Deddf Rheoli Traffig (2004), Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd (1991), neu unrhyw newidiadau/ddiwygiadau yn sgil hyn i'r Deddfau hyn.</p> <p>Rhaid gwneud ceisiadau am gau ffyrdd dros dro o leiaf bedair wythnos cyn y dyddiad y bwriedir cychwyn y gwaith. Wrth wneud y cais i gau'r ffordd, rhaid i'r ymgeisydd roi'r wybodaeth isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) manylion y gwaith arfaethedig;</li> <li>(ii) y dyddiad y bwriedir i'r gwaith gychwyn ac amcan o faint y bydd y gwaith yn para;</li> <li>(iii) cynllun yn dangos lleoliad y gwaith a'r llwybr arall arfaethedig i draffig;</li> <li>(iv) cynigion am arwyddion gwyrriad ar hyd y llwybr arall.</li> </ul> <p>Dylid gwneud ceisiadau am signalau traffig dros dro 2 wythnos cyn y dyddiad y bwriedir cychwyn y Gwaith. Wrth wneud y cais i gau'r ffordd, rhaid i'r ymgeisydd roi'r wybodaeth isod:</p>
<b>2.10</b>	<b>Masnachwyr Stryd</b>
<b>Polisi</b>	Ni fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am lefydd / trwyddedau newydd i fasnachwyr stryd ar y briffordd. Gall masnachwyr stryd presennol gael eu hadleoli oherwydd y datblygiadau.
<b>2.11</b>	<b>Gorchymynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol</b>
<b>Polisi</b>	Gall Gorchymynion Traffig Arbrofol gael eu gweithredu gan y Cyngor o bryd i'w gilydd lle cyfyd problem gyda diogelwch neu lif y traffig ar y briffordd sydd angen ei datrys trwy greu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, ond os felly, nid yw'n hawdd pennu oblygiadau cyflwyno'r Gorchymyn ymlaen llaw.
<b>Canllawiau Gweithredu</b>	Enghraifft o achos o'r fath fyddai cau ffordd yn arbrofol i draffig drwodd, lle gall fod amrywiaeth o lwybrau eraill i draffig sydd wedi ei ddadleoli, a phob llwybr â'i phroblem ei hun. Dan y ddeddfwriaeth arbrofol, caiff hyd yr arbrawf ei ddiffinio yn y Gorchymyn (18 mis fel rheol) ac ar derfyn y chwe mis cyntaf, bydd y Cyngor yn ystyried llwyddiant y Gorchymyn, ynghyd ag yr effeithiau ar yr ardal gyfagos ac unrhyw sylwadau a wnaed. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r ystyriaeth, gall y Gorchymyn gael ei wneud yn barhaol neu ei ddileu, fel sy'n briodol.
<b>2.12</b>	<b>Cau Ffyrdd</b>
<b>Polisi</b>	Nid yw'r Cyngor yn cefnogi egwyddor gyffredinol cau ffyrdd i draffig drwodd. Gall cau ffyrdd fel hyn gael effaith andwyol ar amseroedd ymateb y gwasanaethau brys, ac felly rhaid cadw llwybrau mynediad mor hyblyg ag sydd modd. Fodd bynnag, fe all fod rhesymau penodol o ran diogelwch y ffordd dros ystyried cau ffordd benodol, er enghraifft, cau un fraich o groesffordd nas rheolir lle mae'r cyfraddau damweiniau yn uchel. Caiff achosion o'r fath eu hystyried fel sy'n briodol.
<b>2.13</b>	<b>Dileu Priffyrdd</b>

Eitem	Manylion
Polisi	Lle gwelir nad oes diben defnyddiol i unrhyw ddarn o briffordd gyhoeddus (e.e. o ganlyniad i ail-alinio'r ffordd gerllaw, neu oherwydd newid rhwydwaith y briffordd) yna bydd y Cyngor yn dileu hawliau priffordd dros y rhan o'r briffordd dan sylw. Rhoddir ystyriaeth i weld a oes modd cadw'r rhan o'r briffordd yn ddefnyddiol fel llwybr troed, llwybr beicio, llwybr lle rhennir defnydd neu lwybr march, cyn penderfynu a ddylid dileu hawliau llawn.
<b>2.14</b>	<b>Gwarchod Cyffyrdd</b>
Polisi	Cyngor Rheolau'r Ffordd Fawr yw na ddylai gyrwyr barcio o fewn 10 metr o gyffordd. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cyngor hwn a bydd yn darparu cyfyngiadau aros (llinellau melyn dwbl fel arfer) i ategu hyn lle tybir bod angen hyn oherwydd camddefnydd cyson. Bydd maint y cyfyngiad yn amrywio yn dibynnu ar yr union leoliad, ac asesir pob lleoliad ar feini prawf yn ymwneud â gwrthdrawiadau traffig y ffordd, rhwystrau a phroblemau gwelededd.
Meini Prawf Gweithredu	Er mai 10 metr a nodir, yn ymarferol gall pellter llai fod yn fwy realistig o gofio natur y gyffordd arbennig a'r galw yn yr ardal am barcio. 7 metr sy'n cael ei ddefnyddio yn aml, ond gellir darparu dim llai na 5 metr (mae'r ffigyrau olaf hyn yn cyfateb i hyd rhyw 1.5 neu 1 car).
<b>2.15</b>	<b>Parcio ar Ymylon Gwyrdd</b>
Polisi	Lle bo hynny'n briodol, bydd y Cyngor yn gwneud Gorchymnion Rheoleiddio Traffig yn ei gwneud yn dramgwydd gyrru neu barcio ar ymylon gwyrdd.
Canllawiau Gweithredu	<p>Mae Gorchymnion Traffig yn cael eu cyflwyno gan ystyried anghenion lleol ac anghenion y trigolion gan fod y Cyngor yn derbyn, mewn llawer o strydoedd, fod y galw am barcio yn fwy na'r gofod sydd ar gael.</p> <p>Yr ydym yn derbyn bod ymylon gerllaw'r lôn gerbydau yn ffynhonnell werthfawr o ofod parcio ychwanegol. Bydd y Cyngor yn ystyried newidiadau i'r ymylon yn unig lle cyflwynir cynlluniau trafndiaeth cynaliadwy ac y bydd symud cyfleuster parcio oddi ar y stryd yn helpu i gyflawni amcanion y cynlluniau. O safbwynt ymarferol, gwneir Gorchymnion fesul ward, gyda lleoliadau perthnasol yn cael eu hychwanegu at y Gorchymyn arbennig lle gwelir angen.</p> <p>Yn amodol ar newidiadau mewn deddfwriaeth, rhoddir ystyriaeth i fecanweithiau cyfreithiol ar gyfer gwneud parcio ar ymylon gwyrdd yn dramgwydd penodol yn ei hawl ei hun.</p>
<b>2.16</b>	<b>Parcio ar droedffyrdd</b>
Polisi	<p>Dywed Rheolau'r Ffordd Fawr <b>NA DDYLAI</b> pobl barcio yn rhannol nac yn gyfan gwbl ar y palmant oni fydd arwyddion yn caniatáu hyn. Gall parcio ar y palmant greu rhwystr a chreu anghyfleusterau difrifol i gerddwyr, pobl mewn cadeiriau olwyn neu sydd â nam ar eu golwg, a phobl gyda phramiau babi.</p> <p>Gall hyn gael ei orfodi trwy gyfrwng cosbau am "yrru dros y droedffordd" wrth gyrraedd a gadael, ac o "rwystro'r droedffordd" pan fydd rhywun wedi parcio, ond yr heddlu yn unig all orfodi'r rhain.</p>

Eitem	Manylion
Canllawiau Gweithredu	<p>Yn amodol ar newidiadau mewn deddfwriaeth, rhoddir ystyriaeth i fecanweithiau cyfreithiol i wneud parcio ar y droedffordd yn dramgwydd penodol yn ei hawl ei hun.</p> <p>Pan wnaed y Ddeddf Priffyrdd yn ddeddf, cynhwyswyd tramgwydd o barcio cerbyd nwyddau ar droedffordd, ond ni chynhwyswyd yr hyn oedd yn cyfateb i barcio car. Gwendid y trefniant presennol yw bod yn rhaid i Heddwes weld “gyrru dros y droedffordd” a’i orfodi, a bod “rhwystro’r droedffordd” yn fater o ddehongli ynglŷn â graddfa’r tramgwydd. Gall Swyddogion Gorfodi Sifil (SGS) orfodi lle mae cyfyngiadau ar waith, neu nodi tramgwyddau yn groes i Ddeddf Rheoli Traffig (2004)</p>
<b>2.17</b>	<b>Gorfodi rheoliadau parcio</b>
Polisi	<p>Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros orfodi amrywiaeth o dramgwyddau parcio. Mae hyn yn cyfrannu at amcanion y polisi trafndiaeth trwy fynd i’r afael â pharcio anghyfreithlon sy’n achosi tagfeydd diangen ac oedi traffig.</p> <p>Y pŵer sy’n galluogi gwneud yr offeryn hwn yw paragraff 8(1) Atodlen 8 a pharagraff 3(1) Atodlen 10 Deddf Rheoli Traffig 2004. Mae hwn yn rhoi pŵer i awdurdod lleol orfodi cyfyngiadau parcio yn eu hardal dan drefn sifil a osodir allan yn y Ddeddf. Trosglwyddwyd y pŵer hwn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p>
Canllawiau Gweithredu	<p>Mae’r Gorchymyn yn galluogi Cyngor Dinas a Sir Caerdydd (“y Cyngor”) i orfodi cyfyngiadau parcio sifil yn Ninas a Sir Caerdydd gyda rhai eithriadau.</p> <p>Mae’r Ddeddf Rheoli Traffig yn gosod dyletswydd ar y Cyngor, fel Awdurdod Priffyrdd, i sicrhau bod y briffordd yn gweithredu’n effeithlon o ran symudiadau traffig. Swyddogaeth allweddol wrth gyflawni’r ddyletswydd honno yw rheoli parcio anghyfreithlon a thrwy hynny ymdrin â’r tagfeydd mae’n achosi.</p> <p>Mae tramgwyddau na ellir arnodi o’u herwydd, megis parcio ar linellau melyn dwbl, bellach yn faterion gorfodaeth sifil i’r awdurdod lleol yn hytrach nas chael eu gorfodi gan yr Heddlu fel troseddau. Mae’r ddyletswydd orfodi wedi pasio bellach o Heddlu De Cymru i’r Cyngor ac o wardeniaid traffig i swyddogion gorfodi sifil a gyflogir gan y Cyngor.</p> <p>Pasiwyd Rheoliadau Gorfodi Troseddau Traffig Symudol: Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig y Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 a daethant i rym ar 25 Mawrth 2013. Mae’r rheoliadau hyn yn galluogi’r Cyngor i ysgwyddo’r cyfrifoldeb am orfodi rhai tramgwyddau lonydd bysus a rhai traffig symudol, yn ôl Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004.</p>
<b>2.198</b>	<b>Gorchymynion Amrywiol Eraill nas rhestrir uchod</b>
Polisi	<p>Bydd y Cyngor yn ystyried gwneud unrhyw Orchymyn Rheoleiddio Traffig arall o fewn i’r fframwaith cyfreithiol, os tybir bod angen hyn er mwyn diogelwch y ffordd neu beri bod traffig yn llifo’n effeithiol ar hyd y</p>

Eitem	Manylion
	briffordd.

### 3.0 METHODOLEG YMGYNGHORI

Polisi	Manylion
<b>3.1</b>	<b>Ymgynghori</b>
<b>Polisi</b>	Bydd Cyngor Caerdydd yn ymgynghori yn briodol ac yn unol â'r Strategaeth Ymgynghori Gorfforaethol ar faterion yn ymwneud â darparu cynlluniau parcio a chysylltiedig â pharcio yn y ddinas. Gall ymgynghori amrywio o hysbysiadau ar y stryd a hysbysebion yn y wasg i ymwneud â'r cyhoedd trwy arolygon (electronig ac ar bapur lle bo hynny'n briodol) a digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb sy'n briodol i anghenion cynlluniau a mentrau penodol.
<b>Amodau cyffredinol</b>	<p>Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i fod yn agored, hygyrch ac ymatebol, ac ar yr un pryd i gyd-gordio ac i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian.</p> <p>Dyma fydd yn nodweddu ymarferion ymgynghori Cyngor Caerdydd:</p> <p><b>Eglurder</b> - ystyried a datgan am beth mae'r ymarferiad ymgynghori, , beth yr ydym yn gobeithio ei gyrraedd trwy ymgynghori, â phwy yr ymgynghorir , a pha effaith y gallai canlyniadau'r ymgynghori ei chael.</p> <p><b>Symrlrwydd</b> –Caff materion a themau eu hesbonio yn syml a chryno, fel bod cymryd rhan yn hygyrch a deniadol.</p> <p><b>Tryloywder</b> – Yn unol â chyfrifoldebau Rhyddid Gwybodaeth ac ymrwymadau presennol eraill, dylai'r sawl sydd eisiau cymryd rhan neu archwilio ein prosesau ymgynghori allu cyrchu deunyddiau ategol perthnasol.</p> <p>Ymysg y rhain byddai dogfennau ymgynghori penodol, adroddiadau a phapurau, a chofnodion penderfyniadau a chamau a ddaeth yn eu sgil.</p> <p><b>Gwybodaeth</b> – I alluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i wneud cyfraniad ar sail o wybodaeth</p>